Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# NEWYDDION Y SECTOR DYSGU CYMRAEG

## Hydref 2025

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn

# Croeso

Helo bawb,

Croeso i rifyn yr hydref o gylchlythyr y sector Dysgu Cymraeg, a dymuniadau gorau i bob un ohonoch chi ar ddechrau tymor newydd.

'Dyn ni'n edrych ymlaen at gydweithio â chi i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y profiad gorau posibl wrth ddysgu Cymraeg - boed hynny mewn dosbarth wyneb yn wyneb neu rithiol, yn y gymuned neu'r gweithle, a thrwy gyfleoedd anffurfiol.

Llongyfarchiadau i Llinos Roberts a thîm Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain ar Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus, a llongyfarchiadau, hefyd, i Lucy Cowley, enillydd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn.  Cawson ni wythnos arbennig yn mwynhau rhaglen lawn o weithgareddau ym Maes D, a digwyddiadau eraill ar y maes gyda llu o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, S4C a GIG Cymru.

Cawson ni newyddion cadarnhaol gan Estyn yn ei adroddiad diweddaraf o'r sector Dysgu Cymraeg ym mis Medi, gyda chanmoliaeth i'n cynlluniau Cymraeg Gwaith.  Bydd Estyn yn arolygu'r ddarpariaeth ar gyfer y gweithlu addysg y flwyddyn nesaf, a 'dyn ni'n falch iawn o groesawu'r cynlluniau dysgu dwys (cynllun sabothol) atom y tymor yma, hefyd.

Mae cyfnod prysur o'n blaenau, ac edrychwn ymlaen at gwrdd â chi mewn gwahanol sesiynau hyfforddiant a digwyddiadau dros y misoedd nesaf.

Pob hwyl i chi, a diolch am eich ymroddiad a'ch holl waith caled.

Cofion,

**Dona**

**Dona Lewis**
**Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**



# Cymraeg Gwaith yn “un o gonglfeini cynllunio ieithyddol yn y gweithle”

Mae Estyn wedi canmol cynlluniau Cymraeg Gwaith y Ganolfan am yr effaith gadarnhaol maen nhw’n eu cael ar gryfhau sgiliau dwyieithog mewn gweithleoedd ledled Cymru, gan eu galw’n “un o gonglfeini cynllunio ieithyddol yn y gweithle.”  Ers 2018, mae 2,000 o gyflogwyr a 30,000 o weithwyr wedi cymryd rhan yn y cynllun, sydd wedi tyfu’n aruthrol, gyda rhaglenni penodol ar gyfer gwahanol sectorau, gan gynnwys Iechyd a Gofal, Awdurdodau Lleol, a Chwaraeon. Mae darpariaeth hefyd ar gael mewn sefydliadau adnabyddus fel Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Undeb Rygbi Cymru, Clwb Pêl-droed Wrecsam a’r Gweilch. Cewch ragor o wybodaeth trwy ddilyn y ddolen nesaf: Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol/The National Centre for Learning Welsh - Estyn

# Adroddiad Blynyddol

Mae’r Ganolfan wedi cyhoeddi ei Hadroddiad Blynyddol diweddaraf, sy’n dangos sut mae gweithgarwch y sector wedi arwain at dwf yn y niferoedd sy’n dysgu’r Gymraeg.  Cwblhaodd 18,330 o bobl gyrsiau Dysgu Cymraeg yn 2023–2024 – y nifer uchaf erioed, a chynnydd o 45% ers i’r Ganolfan gymryd cyfrifoldeb dros y sector yn 2016.  Dilynwch y ddolen nesaf i ddarllen yr Adroddiad Blynyddol: adroddiad-blynyddol-2024-25.pdf






# Newyddion yr Eisteddfod

Roedd yr Eisteddfod yn gyfle i'r Ganolfan rannu newyddion am ei gwaith amrywiol a thynnu sylw at wahanol brosiectau, gan gynnwys y bartneriaeth rhwng Clwb Pêl-droed Wrecsam, Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain a'r Ganolfan. Roeddem yn falch o gyhoeddi'r bwriad i gefnogi tiwtor Dysgu Cymraeg i weithio gydag S4C, yn ogystal â hyrwyddo'r rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar gyfer gweithwyr y sector Iechyd a Gofal ledled Cymru.

Mae mwy o wybodaeth am y newyddion hyn ar gael trwy ddilyn y dolenni isod:


- Prosiect ymchwil y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cefnogi sgiliau Cymraeg plant Cymru | Dysgu Cymraeg
- Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn dathlu llwyddiant Dysgwr y Flwyddyn 2025 | Dysgu Cymraeg
- Dathlu partneriaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg a Chlwb Pêl-droed Wrecsam | Dysgu Cymraeg
- Penodi Tiwtor Dysgu Cymraeg i gefnogi S4C a'r sector cynhyrchu | Dysgu Cymraeg
- Hyfforddiant Dysgu Cymraeg ar gyfer y sector Iechyd a Gofal – partneriaeth i gefnogi 'Mwy na Geiriau' | Dysgu Cymraeg



# Gweithgareddau Cefnogi Dysgwyr

**Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg:** Bydd lleisiau ein dysgwyr a siaradwyr newydd i'w clywed ar draws amserlen BBC Radio Cymru ac S4C yn ystod yr Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg, sy'n cael ei chynnal rhwng 11-17 Hydref. Bydd teithiau arbennig hefyd yn cael eu cynnal nos Fercher, 15 Hydref yn y lleoliadau canlynol:

- BBC Cymru: Sgwâr Canolog, Caerdydd
- Canolfan S4C: Yr Egin, Caerfyrddin
- Set Rownd a Rownd: Stiwdios Ffilm Aria, Llangefni




Mae'r teithiau yn addas ar gyfer dysgwyr ar lefelau Canolradd, Uwch a Gloywi, ac mae modd archebu lle trwy ddilyn y ddolen nesaf:
Wythnos Dathlu Dysgu | Dysgu Cymraeg | S4C

Mae'r Ganolfan hefyd yn trefnu sesiwn rithiol yng nghwmni Beti George, Heledd Cynwal a Marc Griffiths nos Fawrth 14 Hydref am 7yh. A wnewch chi rannu'r ddolen gofrestru gyda dysgwyr lefelau Canolradd, Uwch a Gloywi os gwelwch yn dda -
Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg - Cwrdd â'r cyflwynwyr! | Dysgu Cymraeg

DATHLU DYSGU CYMRAEG

BBC RADIO CYMRU

# Gweithgareddau Cefnogi Dysgwyr

**Siawns am Sgwrs:** Bydd tîm y Ganolfan yn cynnal sesiwn rithiol Siawns am Sgwrs bob hanner tymor.  Bydd siaradwr gwadd a chyfle i sgwrsio mewn grwpiau.  Mae'r sesiwn gyntaf nos Lun, 20 Hydref am 7yh pan fydd Dr Mair Lenny Turner yn cyflwyno'r Safle Rhyngweithiol.  Mae'r sesiynau yn addas i bob lefel, a dyma'r ddolen gofrestru ar gyfer y sesiwn gyntaf – Siawns am Sgwrs: dysgucymraeg.cymru | Dysgu Cymraeg




**Penwythnosau preswyl:** 'Dyn ni'n edrych ymlaen at groesawu dysgwyr i'n penwythnosau preswyl unwaith yn rhagor eleni.  Bydd mwy o fanylion ar gael yn y man, ond mae croeso i chi rannu'r dyddiadau isod gyda'ch dysgwyr:

- Gwersyll Llangrannog ar gyfer teuluoedd: 20-22 Chwefror 2026
- Gwersyll Glan-llyn: 1-3 Mai 2026
- Cwrs Pobl Ifanc Caerfyrddin: 3-5 Gorffennaf 2026



# Hyfforddiant

**Uned DPP – Anghenion Arbennig:** Cofiwch am yr unedau hunan-astudio ar Academi: Anghenion Dysgu Ychwanegol a Sgiliau Gwrando. Os cwblhewch chi'r unedau, cewch chi wahoddiad i drafodaeth ar-lein. Bydd y drafodaeth ar yr uned Anghenion Dysgu Ychwanegol ar 25 Tachwedd.

**Cyflwyniad i'r Safle Rhyngweithiol:** Mae'r Safle Rhyngweithiol yn cael ei ddatblygu'n barhaus. Bydd Dr Mair Lenny Turner yn cynnal sesiwn unwaith bob hanner tymor i dywys tiwtoriaid trwy'r Safle. Mae'r sesiynau ar y dyddiadau isod, a bydd pob un yn dechrau am 4yp. Gellir cofrestru ar Academi nawr.

- 4 Tachwedd
- 14 Ionawr
- 12 Mawrth
- 1 Mehefin

**Cynhadledd Academi – cadwch y dyddiad:** Bydd y gynhadledd yn cael ei chynnal ar 15 Mai 2026. Bydd mwy o fanylion ar gael maes o law.

**Cyfathrebu a marchnata:** Nodyn bach i'ch atgoffa i gyfeirio unrhyw ymholiadau gan y wasg a'r cyfryngau at dîm y Ganolfan, os gwelwch yn dda. A chofiwch hefyd ddilyn canllawiau brand y Ganolfan wrth greu unrhyw ddeunyddiau marchnata, a chynnwys eglurhad o'r berthynas rhwng y darparwr a'r Ganolfan lle bo'n berthnasol. Mae croeso i chi gysylltu â swyddog marchnata'r darparwr, neu ebostio Hannah.Thomas@dysgucymraeg.cymru os bydd unrhyw gwestiynau.

# Cysylltwch â ni

Cofiwch ein dilyn ni ar Facebook, Instagram a LinkedIn am y newyddion diweddaraf, neu gallwch anfon e-bost at swyddfa@dysgucymraeg.cymru

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn